CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **1 Hydref 2024**

Teitl: **Gwasanaethau Arbenigol Porth Cynnal**
Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2023 – 2024

Pwrpas yr adroddiad: **Monitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal trwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod pedwerydd chwarter 2023/2024**

Er: **Gwybodaeth**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Alun Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gydol Oes a Llesiant

Cyflwyniad

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir gwybodaeth am y gwaith monitro a sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r Plant sy'n Derbyn Gofal a adolygwyd yn ystod pedwerydd chwarter 2023/24.

Mae'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Sail y wybodaeth yw'r ffurflenni monitro y mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn eu cwblhau yn dilyn pob adolygiad statudol o blant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â'r wybodaeth arall y mae'r Gwasanaethau Plant yn ei chasglu am berfformiad.

Mae'r adroddiad yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal adeg eu hadolygiadau statudol, gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru a Thargedau Perfformiad Lleol.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod cyfarfod adolygu, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn llunio barn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd Cynllun Gofal y plentyn/person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r Cynllun Gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu, bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/person ifanc er mwyn nodi pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol/cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn bod angen gweithredu ar gyfer 6 person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/person ifanc, ac os oes, gallai gyfeirio'r achos i

CAFCASS. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw gyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol:

- Mae gostyngiad bychan yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ers Chwarter 3, gyda 140 ar ddiwedd Ch3 a 137 ar ddiwedd Ch4.
- Cafodd 99 o blant eu hadolygu yn y chwarter hwn a chynhaliwyd 93.9% o adolygiadau o fewn yr amserlen.
- Y ddarpariaeth lleoliad ar gyfer y plant a adolygwyd oedd bod 24 mewn gofal Maeth Awdurdod Lleol, 16 o ofalwyr sy'n berthnasau, 15 wedi'u lleoli gyda rhieni, 18 gydag asiantaethau Gofal Maeth Annibynnol, 11 mewn lleoliadau preswyl, 7 mewn llety â chymorth/byw'n annibynnol, 2 leoliad gyda'r teulu, 1 uned breswyl Mam a Babanod, 1 Gofalwr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol Mamau a Babanod.
- Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd oedd bod 41 yn destun Gorchymyn Gofal Llawn, 31 yn destun Gorchymyn Gofal Dros Dro, 2 yn destun Gorchymyn Lleoliad a 25 o dan Adran 76.
- O'r 9 o'r plant a adolygwyd, daeth eu statws gofal i ben am y rhesymau canlynol: 6 yn destun Dirymu'r Gorchmynion Gofal a 3 wedi'u symud i ddarpariaethau byw'n annibynnol.
- Roedd nifer a chanran y plant a adolygwyd a oedd wedi derbyn ymweliad statudol o fewn terfynau amser yn 85.9% o'i gymharu ag 89.9% yn Ch3.
- Canran y cynlluniau gofal a chymorth a oedd wedi'u sefydlu adeg yr adolygiad cyntaf oedd 71.4% sy'n gynnydd o'r chwarter blaenorol gyda Ch3 yn 26.3% a Ch2 yn 27.3%.
- Roedd canran y plant sydd â Chynlluniau Parhad wedi'u sefydlu yn ystod yr ail adolygiad os nad ydynt wedi dychwelyd adref at eu rhieni yn 94.1% sy'n gynnydd sylweddol ar y chwarter blaenorol sef 44.4%.
- Gofal Maeth Hirdymor oedd prif ganlyniad y cynllun parhad yn ystod y chwarter hwn (37), gyda gofalwr sy'n berthnasau/aelod o'r teulu (14), lleoliad gyda rhiant (12), Byw'n Annibynnol (11).
- Roedd canran y bobl ifanc cymwys a adolygwyd y chwarter hwn a oedd â Chynllun Llwybr wedi'i sefydlu yn 23.1% o'i gymharu â 63.6% yn y chwarter diwethaf.
- Gwnaeth 13 adolygiad amlygu symud mewn lleoliad plant. Roedd 5 heb eu cynllunio ac o'r symudiadau a oedd heb eu cynllunio, cynhaliwyd cyfarfod sefydlogrwydd ar gyfer un o'r rhain ond ni wnaethpwyd, neu nid oedd yn hysbys bod hyn wedi digwydd ar gyfer y symudiadau eraill.
- Roedd 92.9% o'r cynlluniau ar gyfer plant (a oedd yn cynnwys cynlluniau Iechyd ac Addysg) yn diwallu anghenion y plant/pobl ifanc.
- Derbyniodd 89.6% asesiadau Iechyd o fewn y terfynau amser statudol.
- Roedd gan 90.8% o blant Gynllun Addysg Bersonol wedi'i sefydlu o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal.
- Cynhaliwyd 31 o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn, cynhaliwyd 64.5% o fewn terfynau amser o'i gymharu â 33.3% yn ystod y chwarter blaenorol. Cadarnhaodd 96.8% o'r adolygiadau fod y Cynlluniau Llwybr yn diwallu anghenion y person ifanc. Cadarnhaodd 64.5% o'r adolygiadau a gynhaliwyd fod pobl ifanc wedi cael eu hymgynghori ynghylch eu cynlluniau a/neu eu bod yn bresennol yn ystod eu hadolygiadau.

Cyflawniadau cadarnhaol / canlyniadau da ar gyfer Plant / Pobl Ifanc a Adolygwyd yn ystod y chwarter.

Cafodd ei gyfleu mewn 1 adolygiad bod y person ifanc wedi cystadlu mewn cystadleuaeth sgiliau Cymraeg yn ddiweddar ac y daeth yn 7fed yn genedlaethol wrth arddangos sgiliau gosod brics a ddysgodd trwy astudio yng Ngholeg Ceredigion! Roedd y person ifanc hefyd yn mwynhau profiad gwaith a oedd yn cynnwys pythefnos o osod brics mewn ysgol newydd sy'n cael ei hadeiladu yn y sir!

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na. Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir gyda phlant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor: Amherthnasol
Cydweithio: Amherthnasol
Cynnwys: Amherthnasol
Atal: Amherthnasol
Integreiddio: Amherthnasol

Argymhelliad / Argymhellion:
Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch o fewn yr Awdurdod Lleol.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:
Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Trosolwg a Chraffu:
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Fframwaith Polisi:
Strategaeth Gorfforaethol

Amcanion Llesiant Corfforaethol:
Creu cymunedau gofalgar ac iach

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
O fewn y gyllideb graidd

Goblygiadau cyfreithiol:
Dim

Goblygiadau staffio:
Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:
Dim

Risg(iau):
Mae'r adroddiad yn nodi'r risgiau o ran niwed i blant a sut y cânt eu diogelu.

Pwerau Statudol:
Deddf Plant 1989, Deddf Plant 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Papurau Cefndir:
Dim ond dogfennau mewnol y Gwasanaethau Arbenigol

Atodiadau:
Atodiad A- Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol ar gyfer Chwarter 4 2023/24

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Audrey Somerton-Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal

Swyddog Adrodd:
Elizabeth Upcott, Rheolwr Corfforaethol: Diogelu

Dyddiad:
12 Mehefin 2024

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Gwasanaeth Diogelu

Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol

Chwarter 4: 1 Ionawr 2024 – 31 Mawrth 2024

...yn gofalu i wneud gwahaniaeth
...taking care to make a difference

CYNNWYS

		TUDALEN:
ADRAN UN:	**CYFLWYNIAD**	**3**
ADRAN DAU:	**CYNLLUNIO GOFAL**	**4**
ADRAN TRI:	**YMGYNGHORI A CHYFRANOGI**	**22**
ADRAN PEDWAR:	**PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU**	**25**
ADRAN PUMP:	**GWERTHUSO**	**25**
ADRAN CHWECH:	**CYNLLUNIAU LLWYBR**	**26**
ADRAN SAITH:	**GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD**	**28**
ADRAN WYTH:	**GOFAL SEIBIANT BYR**	**29**

ADRAN UN: CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol er mwyn monitro perfformiad a sicrhau ansawdd y gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, plant sy'n gadael gofal, plant sydd mewn lleoliadau preswyl, a phlant sy'n derbyn gofal seibiant a seibiannau byr. Mae'r wybodaeth yn seiliedig ar y ffurflenni monitro a gwblhawyd gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol yn dilyn pob cyfarfod adolygu yn ystod y chwarter hwn, ynghyd â gwybodaeth arall am berfformiad a gedwir gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn / person ifanc i adnabod pobl eraill berthnasol i gael cyngor cyfreithiol / cymryd camau ar ei ran. Barnwyd bod angen gwneud hyn ar gyfer 6 plentyn / person ifanc yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn / person ifanc a gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn.

ADRAN DAU

CYNLLUNIO GOFAL

1. Y Prif Ffigurau ar gyfer Chwarter 4:

Mae'r tabl a'r siart isod yn nodi cyfanswm y Plant sy'n Derbyn Gofal ar ddiwedd bob chwarter gan ddechrau gyda'r chwarter diweddaraf.	
31 Mawrth 2024	137
31 Rhagfyr 2023	140
30 Medi 2023	130
30 Mehefin 2023	125
31 Mawrth 2023	132
31 Rhagfyr 2022	122
30 Medi 2022	112
30 Mehefin 2022	105
31 Mawrth 2022	100



2. Nifer a chanran yr adolygiadau o Blant sy'n Derbyn Gofal a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser statudol.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 93.9%

Adolygwyd 99 o blant yn ystod y chwarter hwn.

- Cynhaliwyd 93 (93.9%) o'r cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn y terfynau amser statudol.

- Cynhaliwyd 6 (6.1%) o'r cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal y tu allan i'r terfynau amser statudol; cofnodwyd y rhesymau canlynol:-

  - Ad-drefnwyd adolygiad 1 person ifanc gan nad oedd cyfieithydd ar gael ar gyfer yr adolygiad.
  - Bu oedi o ran trefnu cyfarfod adolygu 1 person ifanc gan fod y person ifanc yn absennol o fewn oriau o gael ei leoli

- Bu oedi o ran adolygiadau ar gyfer grŵp o 2 blentyn o'r un teulu, ac un person ifanc arall oherwydd salwch y Swyddog Gwasanaeth Adolygu Annibynnol/Gweithiwr Cymdeithasol.
- Bu oedi o ran 1 adolygiad pellach gan fod gweithiwr cymdeithasol wedi gadael heb rybudd, ac oedi o ran ailddyrannu i weithiwr cymdeithasol newydd.

	Ion-Maw 2024	Hyd - Rhag 2023	Gor - Medi 2023	Ebr - Meh 2023	Ion-Maw 2023
Nifer y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter	99	109	88	95	101
Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser	93	92	84	90	95
Nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd y tu allan i'r terfynau amser	6	17	4	5	6



3. Oed a rhyw'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:



4. Anghenion Diwylliannol, Crefyddol ac leithyddol

Nododd 97 (98.0%) adolygiad fod anghenion diwylliannol y person ifanc yn cael eu bodloni; nododd 2 adolygiad nad oedd yn hysbys a oedd yr anghenion diwylliannol yn cael eu bodloni.

Cydnabuwyd mewn 68 adolygiad fod anghenion crefyddol y person ifanc yn cael eu bodloni; mewn 31 adolygiad arall nid oedd yr anghenion yn cael eu bodloni / nid oedd yn hysbys a oedd yr anghenion yn cael eu bodloni.

Roedd angen cyfieithydd ar gyfer 12 adolygiad a chafodd hyn ei ddarparu ar gyfer y 12 adolygiad.

5 Dinasyddiaeth

Mewn 78 adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig, gyda 21 adolygiad yn nodi nad oedd y plentyn / person ifanc yn Ddinesydd y Deyrnas Unedig.

Roedd 14 plentyn / person ifanc yn Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, ac nid oedd gan yr un ohonynt Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd. Nododd pob un o'r 14 adolygiad fod cais wedi'i wneud am Statws Preswylwyr Sefydlog; nododd 12 o'r adolygiadau hyn fod y person ifanc yn cael ei gefnogi gyda hyn.

Roedd 4 plentyn arall (cafodd 3 plentyn eu hadolygu ddwywaith yn ystod y cyfnod hwn) / person ifanc nad oeddent yn Ddinasyddion y Deyrnas Unedig; cadarnhawyd fod 1 person ifanc heb Statws Preswylwyr Sefydlog; ond nid oedd yn hysbys a oedd gan y 3 plentyn arall Statws Preswylwyr Sefydlog.

6 Natur lleoliadau'r plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

Math o Leoliad	**Yn y Sir**	**Tu Allan i'r Sir**	**Cyfanswm**
Gofalwyr sy'n Berthnasau	12	4	16
Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol	24		24
Lleoli â Rhieni	13	2	15
Gofalwyr Asiantaeth Faethu Annibynnol	4	14	18
Preswyl		11	11
Llety â Chymorth / Byw'n Annibynnol		7	7
Arall	3	1	4
Lleoli â Theulu	1	1	2
Mabwysiadu			
Preswyl Mamau a Babanod		1	1
Gofalwyr Maeth Asiantaeth Faethu Annibynnol Mamau a Babanod		1	1
Ysbyty			
	57	**42**	**99**



Roedd 83 o'r bobl ifanc a gafodd eu lleoli gyda Gofalwyr Maeth Lleol wedi cael eu lleoli gyda gofalwyr oedd yn gallu siarad eu hiaith gyntaf; fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am dri o bobl ifanc. Nodwyd nad oedd y wybodaeth ar gael i 1 person ifanc arall.
Nododd 12 adolygiad fod y person ifanc yn blentyn ar ei ben ei hun a chawsant eu rhoi mewn lleoliad gofal nad oedd yn bodloni eu hanghenion o ran eu hiaith gyntaf. Roedd cyfieithydd yn bresennol yn yr adolygiad er mwyn i'r person ifanc allu cyfrannu'n briodol.

7. Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd yn ystod y chwarter hwn:

Statws cyfreithiol y plant a adolygwyd	
Gorchymyn Gofal Llawn	41
Gorchymyn Gofal Dros Dro	31
Gorchymyn Lleoli	2
Adran 76	25
Cyfanswm	**99**



Awdurdod Dirprwyedig
Cadarnhawyd bod awdurdod dirprwyedig wedi'i sefydlu ar gyfer 48 o blant a adolygwyd, a nodwyd mewn 8 adolygiad nad oedd hyn wedi'i wneud eto. Ni wyddys a oedd hyn wedi digwydd mewn 12 adolygiad a chofnodwyd mewn 21 adolygiad arall nad oedd hyn yn berthnasol i'r achos.

8. Y rhesymau pam fod y plant a adolygwyd wedi gadael gofal

Cyfnod	Y nifer sydd wedi gadael gofal	Y rheswm dros adael gofal				
		Mabwysiadu	Dychwelyd adref at y teulu	'Pan rwyf yn barod'	Dirymu'r Gorchymyn Gofal	Llety â chymorth / Byw'n Annibynnol / Cysylltu Bywydau
Ion - Maw 2024	**9**				6	3
Hyd - Rhag 2023	**7**		1		5	1
Gor - Medi 2023	**7**	2	3			2
Ebr – Meh 2023	**20**		2	1	15	2
Cyfanswm	**43**	**2**	**6**	**1**	**26**	**8**



9. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd â Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 99.0%

- Cofnodwyd mewn 98 (99.0%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal fod Gweithiwr Cymdeithasol cymwys wedi'i bennu ac yn gweithio gyda'r plentyn.
- Cofnodwyd mewn 1 (1.0%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal fod plentyn wedi'i bennu i'r tîm, heb weithiwr cymdeithasol penodol.

10. Nifer a chanran yr ymweliadau statudol â Phlant sy'n Derbyn Gofal o dan adolygiad a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser gofynnol.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 85.9%

- Derbyniodd 85 (85.9%) o Blant sy'n Derbyn Gofal ymweliadau gan Weithiwr Cymdeithasol yn unol â'r gofynion statudol.



11. Nifer a chanran y Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6) a oedd wedi'u sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad cyntaf a'r cynlluniau cyfredol a oedd ar gael ar gyfer yr adolygiad.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 71.4%

- Daeth 7 o blant yn Blant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn; cofnodwyd mewn 5 (71.4%) chyfarfod adolygu fod gan y plentyn / person ifanc Gynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad ei leoliad. Nid oedd Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) wedi'i sefydlu erbyn dyddiad y lleoliad ar gyfer y 2 plentyn / person ifanc arall.



- Cofnodwyd mewn 67 (67.7%) adolygiad fod y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) yn gyfredol.
- Nododd y Swyddog Adolygu Annibynnol fod angen diweddaru cofnodion y Cynllun Gofal a Chymorth (Rhan 6) ar gyfer 32 plentyn. Nodwyd bod dal angen diweddaru'r Cynllun Gofal a Chymorth ar gyfer pob un o'r 32 plentyn / person ifanc.

12. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal oedd â Chynllun Parhad wedi'i sefydlu erbyn yr ail adolygiad os na chynlluniwyd ar gyfer dychwelyd adref.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 94.1%

- Cynhaliwyd 17 ail adolygiad yn ystod y chwarter hwn, a chofnodwyd mewn 16 adolygiad (94.1%) fod Cynllun Parhad wedi'i gytuno, o gymharu ag 44.4% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 3 (3.0%) adolygiad yn ystod y cyfnod hwn, cofnododd y Swyddog Adolygu Annibynnol bryderon ynghylch cynnydd y Lleoliad / Cynllun Gofal a Chymorth / Cynllun Parhad.

  Dyma oedd natur y pryderon:-

  - Pryder ynghylch un adolygiad lle roedd y person ifanc yn lleisio'n barhaus ei (d)dymuniad i ddychwelyd i fyw yng Ngheredigion, fodd bynnag roedd y cynllun arfaethedig ar gyfer lleoliad gyda theulu yn Lloegr.
  - Pryder o ran y ffaith fod 1 person ifanc yn parhau mewn lleoliad heb ei reoleiddio.
  - Roedd oedi o ran datblygiad a chadarnhad cynllun ar gyfer 1 person ifanc oherwydd fod y rhiant yn ymddangos yn ddiysgog o safbwynt cyfathrebu gyda'r gweithiwr cymdeithasol i alluogi cwblhau asesiad risg.



13. Yr hyd o amser mewn gofal:



14: Natur y Cynlluniau Parhad:



15. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd ofal seibiant byr gan rywun heblaw eu prif ofalwyr.

- Mewn 8 (8.1%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal nodwyd bod y plentyn / person ifanc yn cael gofal seibiant byr gan rywun heblaw eu prif ofalwyr; nododd pob un o'r adolygiadau hyn fod y gofal seibiant yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc.

16. Nifer a chanran y bobl ifanc gymwys sydd â Chynllun Llwybr yn unol â'r gofynion.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd: 23.1%

- Mewn 3 (23.1%) adolygiad cofnodwyd bod Cynllun Llwybr wedi'i sefydlu a bod Ymgynghorydd Personol wedi'i bennu ar gyfer y person ifanc.

- Mewn 10 (76.9%) adolygiad cofnodwyd nad oedd gan y person ifanc Gynllun Llwybr wedi'i sefydlu, fodd bynnag roedd Ymgynghorydd Personol wedi'i bennu ar gyfer 2 o'r rhain..



17 Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) oedd yn deall y rhesymau pam eu bod yn derbyn gofal.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 95.9%

- Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 73 o blant / pobl ifanc, oherwydd barnwyd nad oedd 26 plentyn / person yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal.

- Roedd 70 (95.9%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth pam eu bod yn derbyn gofal gan rywun heblaw am eu teuluoedd, o gymharu â 93.1% yn y chwarter blaenorol.

- Nododd 3 (4.1%) adolygiad fod angen gwneud gwaith Taith Bywyd gyda'r plant / pobl ifanc er mwyn eu helpu i ddeall pam eu bod yn derbyn gofal, nodwyd fod 1 o'r plant yn ymwybodol na fyddai'n byw gyda'r rhiant.

18. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal (fel y bo'n briodol o ran eu hoedran a'u crebwyll) oedd yn deall eu Cynllun Gofal a Chymorth.

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 72 plentyn / person ifanc oherwydd barnwyd nad oedd 27 plentyn / person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 64 (88.9%) yn y grŵp hwn yn dangos rhyw fath o ddealltwriaeth o'r hyn a oedd yn eu Cynlluniau Gofal a Chymorth (Rhan 6).

- Cofnodwyd mewn 8 (11.1%) adolygiad fod angen rhannu hyn gyda'r plant / pobl ifanc.

19. Mesur Cenedlaethol 33: Nifer a chanran yr achosion o symud Plant sy'n Derbyn Gofal.

- Mewn 13 (13.1%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud lleoliad yn ystod y chwarter hwn; o gymharu â 10.1% yn y chwarter blaenorol.

Dyma oedd y rhesymau dros newid y lleoliadau:

- Cafodd grŵp o 3 o'r un teulu orchymyn Llys wedi'i gynllunio i'w symud o'r teulu i ofal maeth.
- Cynlluniwyd ar gyfer symud 1 person ifanc o ofal maeth yn dilyn rybudd terfynu i fyw gyda pherthnasau ar ochr y tad.
- Cynlluniwyd ar gyfer symud person ifanc arall at ofalwyr maeth tymor hir yn dilyn methiant gyda gofalwyr sy'n deulu.
- Cynlluniwyd ar gyfer symud 1 person ifanc nad oedd am aros gyda gofalwyr maeth i leoliad byw'n rhan-annibynnol.
- Cynlluniwyd ar gyfer symud 1 person ifanc arall o leoliad tymor byr i fyw â pherthnasau, a fu'n fethiant yn dilyn hyn, ac yna darparwyd llety â chefnogaeth, yna ei symud i leoliad maethu.
- Arweiniodd problemau o fewn lleoliad maethu at symud person ifanc arall heb ei gynllunio i Lety Byw'n Annibynnol gyda chefnogaeth gan weithwyr cefnogi.
- Yn anffodus, gadawodd 1 person ifanc leoliad o fewn oriau o gael eu lleoli.
- Cafodd 1 person ifanc symudiadau heb eu cynllunio ar ôl gadael lleoliad gyda aelod o'r teulu i fyw gyda aelod arall o'r teulu, yna, byw mewn llety dros dro ac ar adeg yr adolygiad roedd yn aros i'r All adnabod lleoliad addas.
- Canlyniad methiant mewn lleoliad oedd symud heb ei gynllunio i 1 person ifanc o leoliad preswyl i leoliad dros dro oedd heb ei reoleiddio.
- Cafodd person ifanc arall ei symud heb ei gynllunio i leoliad gofalwr maeth tymor byr yn ystod cyfnod pontio i fyw'n annibynnol yn dilyn methiant lleoliad gofalwr sy'n deulu.
- Cadarnhaodd adolygiad pellach gynllun ar gyfer symud baban o leoliad preswyl ar gyfer mamau a babanod i ofalwyr maeth.

O'r symud heb eu cynllunio, nododd 1 adolygiad fod Cyfarfod Sefydlogrwydd wedi'i gynnal o fewn 6 wythnos. Ni gynhaliwyd Cyfarfod Sefydlogrwydd ar gyfer gweddill y symud heb eu cynllunio / nid yw'n hysbys a gynhaliwyd Cyfarfod Sefydlogrwydd.

20 Nifer a chanran y cynlluniau lleoli (gan gynnwys darpariaeth addysg ac iechyd) yr aseswyd eu bod yn bodloni anghenion y Plant sy'n Derbyn Gofal.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 92.9%

- Cofnodwyd bod 91 (92.9%) o'r cynlluniau lleoli / gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc, o gymharu â 95.4 yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd mewn 7 (7.1%) adolygiad nad oedd y cynlluniau lleoli / gofal a chymorth yn bodloni anghenion y plant / pobl ifanc. Dyma oedd y rhesymau a gofnodwyd:

  - Ar gyfer 3 person ifanc roedd oherwydd nad oedd y ddarpariaeth addysgol wedi'i nodi a / neu nad oedd wedi'i drefnu / dyddiad dechrau wedi'i gadarnhau.
  - Nodwyd fod 1 person ifanc wedi'i osod mewn lleoliad heb ei reoleiddio.
  - Nodwyd mewn adolygiad ar gyfer grŵp a 2 o'r un teulu fod gweithwyr proffesiynol yn cwrdd â gofynion y plant fwy na'r rheini.
  - Roedd 1 person ifanc arall yn parhau i nodi ei (d)dymuniad i fyw mewn lleoliad teuluol, ac ar hyn o bryd mae mewn lleoliad nad yw wedi'i reoleiddio sydd ddim yn gynaliadwy yn y tymor hir.

- Di-ystyriwyd 1 lleoliad o'r cyfanswm gan fod y person ifanc wedi gadael o fewn 24 awr o gael ei leoli.

21. Nifer a chanran y pryderon diogelu a nodwyd mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y chwarter hwn.

- Mewn 6 (6.1%) adolygiad o Blant sy'n Derbyn Gofal nodwyd bod pryderon diogelu o ran y person ifanc; cadarnhawyd bod y pryderon yn cael sylw.

22. Nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a enwir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

- Mewn 3 (3.0%) adolygiad yn ystod y chwarter hwn, cadarnhawyd bod enw'r person ifanc wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

23. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd Asesiadau Iechyd yn unol â'r gofynion statudol.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 89.6%

- Roedd 86 (89.6%) o'r plant / pobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael asesiad iechyd erbyn eu hadolygiad, o gymharu â 95.4% yn y chwarter blaenorol.

  - Mewn 1 (14.3%) adolygiad cyntaf nodwyd bod yr asesiad iechyd wedi'i gwblhau o fewn 4 wythnos wedi i'r plentyn ddechrau derbyn gofal.

  - Mewn 6 (85.7%) adolygiad cyntaf, nodwyd nad oedd yr Asesiad Iechyd wedi'i gwblhau o fewn 4 wythnos wedi i'r plentyn ddechrau derbyn gofal. Fodd bynnag roedd 3 o'r adolygiadau hyn yn nodi fod Asesiad Iechyd wedi'u cwblhau yn dilyn hyn. Roedd 2 adolygiad arall yn nodi fod y person ifanc wedi gadael gofal, gyda 1 adolygiad pellach yn nodi fod yr Asesiad Iechyd yn y broses o gael ei gwblhau.

  - Mewn 85 (95.5%) adolygiad arall nodwyd bod Asesiadau Iechyd yn cael eu cynnal bob 6 mis ar gyfer plant o dan 5 oed a phob 12 mis ar gyfer plant dros 5 oed.

  - Mewn 4 (4.5%) adolygiad pellach nodwyd nad oedd yr Asesiadau Iechyd wedi'u cwblhau. Roedd yr adolygiadau hyn ar gyfer grŵp o 3 o'r un teulu a adolygwyd dwy-waith yn ystod y chwater. Cwblhawyd Asesiad Iechyd 2 o'r plant hyn yn dilyn hyn ac fe nodwyd yn ei hadolygiadau canlynol, fodd bynnag mae Asesiad Iechyd y plentyn arall yn parhau heb ei wneud. Nodwyd fod hwn yn achos cymhleth iawn.

- Gwrthododd 2(3.0%) o'r Plant/Pobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal ymgysylltu i gwblhau asesiad iechyd ac felly cafodd rhain eu diystyru o'r cyfanswm.



Sylw: Ceir oedi yn aml oherwydd diffyg hysbysu ynghylch plant newydd i leoliadau / symud lleoliad a terfyn lleoliadau gan yr Awdurdod.

24. Canran y plant a oedd wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau derbyn gofal.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 47.1%

Wedi cofrestru gyda deintydd

Mae'r data ynghylch cofrestru plant / pobl ifanc gyda deintydd o fewn 20 diwrnod ar ôl iddynt ddechrau derbyn gofal yn ymwneud a 17 plentyn / person ifanc.

- Mewn 11 (64.7.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r lleoliad.

- Mewn 6 (35.3%) adolygiad nodwyd nad oedd y plentyn / person ifanc wedi cofrestru gyda deintydd eto.

****

Cofrestru â deintydd

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 92 plentyn / person ifanc oherwydd diystyriwyd 7 plentyn / person ifanc a oedd yn cael eu hadolygiad cyntaf o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesur Cenedlaethol.

- Roedd 82 (89.1%) o blant a phobl ifanc wedi cofrestru gyda deintydd, o gymharu ag 97.8% yn y chwarter blaenorol.

- Roedd 10 (10.9%) adolygiad yn nodi fod angen cofrestru'r plant / pobl ifanc gyda deintydd; roedd hyn mewn gwirionedd ar gyfer 7 plentyn gan fod 3 o'r plant hyn wedi'u hadolygu ddwywaith yn ystod y chwarter.

Sylw:

25. Mesur Cenedlaethol 30: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal oedd wedi cael eu gweld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

Wedi cael ei weld gan ddeintydd

Mae'r data ynghylch cael ei weld gan ddeintydd o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal yn ymwneud a 16 plentyn, roedd 1 plentyn o dan 2 flwydd oed ac felly cafodd ei ddiystyru o'r cyfanswm.

- Cofnodwyd mewn 11 (68.7.0%) adolygiad fod y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

- Cofnodwyd mewn 5 (31.3%) adolygiad nad oedd y plentyn / person ifanc wedi cael ei weld gan ddeintydd cofrestredig o fewn 3 mis ar ôl dechrau derbyn gofal.

****

Wedi cael ei weld gan ddeintydd

Y targed a bennwyd 90% - Yr hyn a gyflawnwyd 73.6%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 87 plentyn / person ifanc gan fod 12 plentyn / person ifanc yn iau na 2 oed a / neu'n cael eu hadolygiad cyntaf, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau uchod er mwyn bodloni gofynion y Mesurau Cenedlaethol.

- Cofnodwyd bod 64 (73.6%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd yn y 12 mis blaenorol, o gymharu â 81.6% yn y chwarter blaenorol.

- Cofnodwyd nad oedd 23 (26.4%) o blant a phobl ifanc wedi gweld deintydd.



26. Mesur Cenedlaethol 31: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu ymhen 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau yn eu lleoliad.

- Mewn 17 (81.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn wedi cofrestru gyda darparwr gwasanaethau meddygol cyffredinol ymhen 10 niwrnod gwaith ar ôl dechrau yn y lleoliad.

- Adroddwyd mewn 4 (19.4%) adolygiad nad oedd y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

27. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd wedi'u cofrestru gyda Meddyg Teulu.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 77.3%

- Roedd 98 (99.0%) o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.
- Roedd 1 (1.0%) person ifanc heb gofrestru gyda meddyg teulu.
- Roedd 75 (77.3%) o blant wedi cael eu holl frechiadau.
- Roedd 22 (22.7%) o blant yn hwyr yn cael eu brechiadau. Mae 1 person ifanc bellach wedi cael ei frechiadau. Mae 12 o'r bobl ifanc hyn yn Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, a chynigir rhaglen garlam iddynt gan fod eu hanes brechu'n anghyflawn.

Cafodd 2 adolygiad eu diystyru o'r ffigurau oherwydd roedd y rhiant / person ifanc yn gwrthod cael brechiadau.

Sylw: Mae diweddaru brechiadau yn broses barhaus er mwyn cydymffurfio ag amserlenni brechu.

- Roedd 84 (84.8.0%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn nodi yr ystyriwyd iechyd meddwl/emosiynol y plant/pobl ifanc yn ystod yr Asesiad Iechyd ac/neu yn ystod trafodaethau yn y cyfarfod.
- Roedd 15 (15.2%) Adolygiad yn nodi na ystyriwyd materion yn ymwneud â iechyd meddwl.

****

- Roedd 9 (9.1%) Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal yn nodi fod gan y person ifanc broblem iechyd meddwl ar y pryd.
- Nodwyd materion o ran ymddygiad ar gyfer 15 (15.2%) o blant / pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

28. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal yr aseswyd eu bod angen cymorth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gafodd eu hatgyfeirio ac a dderbyniodd asesiad / gwasanaeth.

- Mewn 3 (3.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi cael ei atgyfeirio i CAMHS, a chadarnhawyd yn y 3 adolygiad bod yr atgyfeiriad wedi cael ei dderbyn.

29. Natur y Ddarpariaeth Addysg:

Yn ystod y chwarter hwn roedd y plant a'r bobl ifanc a adolygwyd yn y ddarpariaeth addysg ganlynol:

Darpariaeth Addysg	
Plant cyn-ysgol	17
Disgyblion ysgol gynradd	28
Disgyblion ysgol uwchradd	32
Uned Cyfeirio Disgyblion	1
Prosiectau eraill – Lleoliad Gwaith Arbenigol	1
Coleg	10
Colli addysg	3
Heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET)	3
Addysg heblaw yn yr ysgol	3
Preswyl	1
Wedi gadael yr ysgol	
Tiwtora	
Addysg Ddewisol yn y Cartref	
Cyflogedig	
Cyfanswm	**99**



30. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal o oed ysgol oedd â Chynllun Addysg Personol o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl dechrau mewn ysgol newydd.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 90.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 65 plentyn / person ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol ac felly'n gymwys i gael Cynllun Addysg Personol.

- Roedd gan 59 (90.8%) o blant a phobl ifanc a oedd dros yr oedran statudol i ddechrau ysgol Gynllun Addysg Personol cyfredol.

  - Mewn 8 (72.7%) adolygiad cofnodwyd bod y Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol ar ôl dechrau derbyn gofal neu ar ôl newid ysgol, yn unol â'r gofynion.

  - Mewn 83(27.3%) adolygiad cofnodwyd nad oedd Cynllun Addysg Personol wedi'i gwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol.

****

  - Mewn 51 (94.4%) adolygiad cofnodwyd bod gan y person ifanc Gynllun Addysg Personol cyfredol.

  - Mewn 3 (5.6%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y Cynllun Addysg Personol yn gyfredol.

****

- Roedd gan 16 (24.6%) o blant a phobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol / coleg anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu cydnabod fel rhai ar y lefel uchaf.

***

- Mewn 26 (38.8%) adolygiad daethpwyd i'r casgliad bod y plant / pobl ifanc a oedd yn mynd i'r ysgol / coleg angen cymorth addysgol ychwanegol. Mewn 24 adolygiad cofnodwyd bod y bobl ifanc yn derbyn cymorth; fodd bynnag roedd 2 adolygiad yn nodi nad oedd cymorth yn ei le.

- Mewn 2 adolygiad pellach nodwyd y pobl ifanc a oedd yn mynd i'r coleg yn derbyn cefnogaeth addysgol ychwanegol.

***

- Mewn 3 (36.4%) adolygiad nodwyd bod y ddarpariaeth addysg wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

- Mewn 7 (63.6%) adolygiad cofnodwyd nad oedd y ddarpariaeth addysgu wedi'i sefydlu ar ddechrau'r lleoliad.

***

- Mewn 11 (16.9%) adolygiad cofnodwyd y bu cyfnod pan nad oedd y plentyn / person ifanc mewn addysg tra ei fod yn aros am le mewn ysgol.

31. Mesur Cenedlaethol 32: Canran y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd wedi symud i ysgol arall, ac eithrio trefniadau pontio.

Y targed a bennwyd 0% - Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 0 (0.0%) adolygiad cofnodwyd bod y plentyn / person ifanc wedi symud i ysgol arall, nad oedd yn sgil pontio, o gymharu â (7.9%) yn y chwarter blaenorol.

32. Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a gafodd eu gwahardd o'r ysgol

Y targed a bennwyd: 12% yn cael gwaharddiad dros dro – Yr hyn a gyflawnwyd 3.1%
Y targed a bennwyd: 1% yn cael gwaharddiad parhaol – Yr hyn a gyflawnwyd 0.0%

- Mewn 2 (3.1%) adolygiad adroddwyd bod y person ifanc wedi'i wahardd o'r ysgol dros dro yn ystod y cyfnod adolygu, o gymharu â 0.0% yn y chwarter blaenorol.

- Ni adroddwyd mewn unrhyw adolygiad (0.0%) bod y person ifanc wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol, sy'n gyson â'r chwarter blaenorol.

Y gwaharddiadau yn ystod y chwarter hwn oedd: -
18 sesiwn, cyfanswm o 9 diwrnod

ADRAN TRI

YMGYNGHORI A CHYFRANOGI

1. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Plant sy'n Derbyn Gofal a oedd yn ddigon hen ac yn meddu ar ddigon o grebwyll fel bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi medru ymgynghori â hwy neu roeddent yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

Y targed a bennwyd 100% – Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 70 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 29 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i fod yn rhan o'r broses ymgynghori, er bu 3 o'r plant / pobl ifanc yn bresennol yn eu hadolygiad.

- Cofnodwyd mewn 70 (100.0%) adolygiad fod ymgynghori wedi digwydd.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Bu 38 plentyn / person ifanc yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu drwy ddulliau hybrid / Teams.
  Roedd 32 plentyn / person ifanc wedi cwblhau papurau ymgynghori, wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol a / neu roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr neu eiriolwyr wedi'u cynrychioli yno.

- Cysylltodd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn uniongyrchol â 24 plentyn / person ifanc yn ystod y cyfnod adolygu tu hwnt i'r cyfarfod adolygu.

2 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a oedd yn gwybod am eu hawl i gael Gwasanaeth Eirioli / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 89.3%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 75 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 24 adolygiad nad oedd y plant / pobl ifanc a adolygwyd yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll i gael gwybod am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cafodd 67 (89.3%) plentyn / person ifanc wybod am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

- Ni chafodd 8 (10.6%) plentyn / person ifanc wybod am eu hawl i gael Eiriolwr / Cynllun Ymwelydd Annibynnol.

3 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am y drefn gwyno.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 96.8%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud â 63 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 29 adolygiad nad oedd y plentyn / person ifanc yn ddigon hen nac yn meddu ar ddigon o grebwyll, felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Roedd 61 (96.8%) o blant / pobl ifanc yn gwybod am y drefn gwyno, o gymharu â 96.2% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 2 (3.2%) adolygiad cofnodwyd bod y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ansicr a oedd y plentyn / person ifanc yn gwybod am y broses gwyno neu beidio.

4 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y rhieni y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy cyn yr adolygiad neu a fu'n bresennol yn y cyfarfod adolygu.

Y targed a bennwyd 80% - Yr hyn a gyflawnwyd 97.6%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 85 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 14 adolygiad nad oedd y rhieni yn rhan o'r broses adolygu statudol, ac felly fe'u diystyriwyd o'r ffigurau.

- Cwblhaodd 83 (97.6%) o rieni bapurau ymgynghori neu roeddent wedi cwrdd neu siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol cyn a / neu ar ôl y cyfarfod adolygu, a / neu roeddent yn bresennol yn y cyfarfod adolygu, a / neu roedd gweithwyr proffesiynol wedi'u cynrychioli yno.

- Nododd 2 (2.4%) o'r adolygiadau na chynhaliwyd ymgynghoriad.

  Dadansoddiad o'r ymgynghori
  Cafodd papurau ymgynghori eu hanfon ar gyfer 83 adolygiad.
  Mewn 46 adolygiad cadarnhawyd bod y rhieni'n bresennol neu eu bod wedi siarad â'r Swyddog Adolygu Annibynnol dros y ffôn cyn a / neu ar ôl yr adolygiad.

5 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y gofalwyr maeth y bu i'r gweithiwr cymdeithasol ymgynghori â hwy neu a fu'n bresennol yng nghyfarfod adolygu'r plentyn.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 100.0%

Mae'r data ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn ymwneud ag 88 adolygiad oherwydd cofnodwyd mewn 11 adolygiad bod y plentyn wedi'i leoli â rhiant neu'n byw'n annibynnol, felly diystyriwyd yr adolygiadau hyn o'r ffigurau.

- Cwblhaodd pob un o'r 88 (100.0%) o ofalwyr maeth bapurau ymgynghori a / neu buont yn bresennol yn y cyfarfodydd adolygu yn ystod y cyfnod hwn.

6 Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr iechyd a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 83.8%

- Mewn 83 (83.8%) adolygiad cadarnhawyd bod gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

- Mewn 16 (16.2%) adolygiad adroddwyd nad oedd gwybodaeth am iechyd ar gael ar gyfer y cyfarfod.

Sylw: Pan fo pobl ifanc yn byw y tu allan i'r sir, mae'n fwy anodd cael y gweithwyr iechyd proffesiynol i fod yn bresennol. Byddwn yn adolygu'r diffyg presenoldeb / derbyn adroddiadau.

7. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y cynrychiolwyr ysgol a fu'n bresennol mewn adolygiad neu a anfonodd adroddiad.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 94.6%

- Mewn 70 (94.6%) adolygiad roedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig, o gymharu â 94.0% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 4 (5.4%) adolygiad cofnodwyd nad oedd rhywun o'r ysgol yn bresennol neu wedi darparu adroddiad ysgrifenedig.

8. Dangosydd Perfformiad Lleol: Nifer a chanran y Dogfennau Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol cyn yr adolygiad.

Y targed a bennwyd 100% - Yr hyn a gyflawnwyd 37.4%

- Mewn 37 (37.4%) adolygiad cadarnhawyd bod y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu, o gymharu â 30.3% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 62 (62.6%) adolygiad cadarnhawyd nad oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi cwblhau'r ddogfen adolygu cyn y cyfarfod adolygu.

9. Cyflawniadau cadarnhaol / canlyniadau da ar gyfer Plant / Pobl Ifanc a Adolygwyd yn ystod y chwarter.

Cafodd ei gyfleu mewn 1 adolygiad bod y person ifanc wedi cystadlu mewn cystadleuaeth sgiliau Cymraeg yn ddiweddar ac y daeth yn 7fed yn genedlaethol wrth arddangos sgiliau gosod brics a ddysgodd trwy astudio yng Ngholeg Ceredigion! Roedd y person ifanc hefyd yn mwynhau profiad gwaith a oedd yn cynnwys pythefnos o osod brics mewn ysgol newydd sy'n cael ei hadeiladu yn y sir!

ADRAN PEDWAR:
PROTOCOL DATRYS PROBLEMAU

Gweithredodd y Swyddog Adolygu Annibynnol y Protocol Datrys Problemau ar gyfer un person ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Cynhaliwyd 2 adolygiad canol cyfnod yn ystod y cyfnod hwn a lle'r oedd angen roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cynnal adolygiad yn gynt pan roedd pryderon.

ADRAN PUMP

GWERTHUSO

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

ADRAN CHWECH

CYNLLUNIAU LLWYBR

Ar gyfer pobl ifanc dros 16 oed nad ydynt yn blant sy'n derbyn gofal / pobl ifanc dros 18 oed sydd wedi gadael gofal

Cynhaliwyd 31 Adolygiad o Gynlluniau Llwybr yn ystod y chwarter hwn.

1 Dangosydd Perfformiad: Canran yr Adolygiadau o Gynlluniau Llwybr a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser.

- Cynhaliwyd 20 (64.5%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr o fewn y terfynau amser, o gymharu â 33.3% yn y chwarter blaenorol.

- Cynhaliwyd 11 (35.5%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr y tu hwnt i'r terfynau amser. Dyma oedd y rhesymau a gofnodwyd:-

  - Derbyniwyd cadarnhad yn ystod y chwarter hwn y dylai pob Adolygiad Cynllun Llwybr barhau i gael eu hadolygu gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol. Ar gyfer 8 o'r adolygiadau a oedd y tu hwnt i'r terfynau amser, cofnodwyd taw'r rheswm nad oedd yr adolygiadau blaenorol wedi'u cynnal yn y dull hwn.
  - Gohiriwyd 2 Adolygiad oherwydd salwch y Swyddog Adolygu Annibynnol/Ymgynghorydd Personol, a bu'n rhaid aildrefnu 1 adolygiad.

2 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc ag Ymgynghorydd Personol / Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig.

- Ymhob un o'r 31 (100%) adolygiad nodwyd bod gan yr holl bobl ifanc Ymgynghorydd Personol a / neu Weithiwr Cymdeithasol dynodedig.

3 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cofnodion Adolygu Cynlluniau Llwybr a oedd wedi'u cwblhau erbyn y cyfarfod.

- Roedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau ar gyfer 28 (90.3%) Adolygiad o Gynlluniau Llwybr, o gymharu â 88.9% yn y chwarter blaenorol.

- Mewn 3 (9.7%) adolygiad adroddwyd nad oedd y Cofnod Adolygu wedi'i gwblhau adeg yr adolygiad.

4 Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y cyfarfod adolygu.

- Cadarnhawyd mewn 20 (64.5%) adolygiad y bu'r bobl ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'u cynrychioli yno.

- Nodwyd mewn 11 (35.5%) adolygiad nad oedd y person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu a / neu fod rhywun wedi'i gynrychioli yno.

5 **Dangosydd Perfformiad: Canran y bobl ifanc a oedd yn bresennol yn eu cyfarfod adolygu.**

- Mewn 14 (45.2%) adolygiad cofnodwyd y bu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

- Mewn 17 (54.8%) adolygiad cofnodwyd na fu'r person ifanc yn bresennol yn y cyfarfod adolygu.

6 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr oedd yn bodloni anghenion y person ifanc.

- Mewn 30 (96.8%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc.

- Mewn 1 (3.2%) adolygiad nodwyd nad oedd Cynllun Llwybr yn bodloni anghenion y person ifanc, ac fe nodwyd y rheswm fel a ganlyn:-

➢ Nid yw'r person ifanc yn ymgysylltu â'r Gwasanaeth Cynlluniau Llwybr, a'r Ymgynghorydd Personol. Pe byddai'n gwneud hyn, gellid dweud fod y Cynllun Llwybr yn cwrdd a'i anghenion ond ni ellir dweud hyn ar hyn o bryd.

7 Dangosydd Perfformiad: Canran y Cynlluniau Llwybr a ddiweddarwyd cyn gadael gofal / troi'n 18 oed.

- Mewn 2 (100.0%) adolygiad cadarnhawyd bod y Cynllun Llwybr wedi'i ddiweddaru cyn i'r person ifanc adael gofal / troi'n 18 oed.

8 Gwerthuso – Nid oedd y wybodaeth hon ar gael ar gyfer y chwarter hwn.

ADRAN SAITH

GOFAL SEIBIANT BYR RHEOLAIDD

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiad o ofal seibiant byr rheolaidd yn ystod y chwarter hwn.

ADRAN WYTH

GOFAL SEIBIANT BYR

Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau o ofal seibiant byr yn ystod y chwarter hwn.